# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2011**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(14)

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

Ni ofynnwyd cwestiwn 1. Gofynnwyd yr 13 cwestiwn cyntaf. Cafodd cwestiynau 5 a 12 eu hateb gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl.

**14.17**
**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

**15.00**
**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adroddiad ESTYN**

**15.34**
**4. Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau**

**NDM4792 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

**NDM4793 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle William Powell (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

**NDM4794 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Aled Roberts (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

**NDM4795 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) i fod yn weithredol o 19 Medi 2011.

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**15.35**
**5. Cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad**

**NDM4787 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn dilyn y refferendwm ar bwerau'r Cynulliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Gorffennaf 2011;

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**15.47**
**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4786 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Cydnabod rôl allweddol twristiaeth yn economi Cymru;

b) Hyrwyddo Cymru dramor yn gyfan gwbl;

c) Cynyddu nifer y cwmnïau sy'n allforio o Gymru a gwerth allforion o Gymru;

d) Sicrhau bod rhagor o fewnfuddsoddi i Gymru yn cael ei annog.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

Buddsoddi mewn sgiliau fel y bydd gan fusnesau yng Nghymru fwy o botensial i allforio a denu rhagor o fewnfuddsoddi.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

e) Edrych ar bob llwybr posibl er mwyn cynnal gwariant cyfalaf ar brosiectau seilwaith fel ffordd o roi hwb i gwmnïau Cymru a'u gallu i gystadlu mewn marchnad fyd-eang.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y byddai Cyfnewidfa Stoc Cymru yn helpu i hyrwyddo Cymru fel economi fodern.

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**16.42**
**7. Dadl Plaid Cymru**

**NDM4789 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gymunedau ledled y wlad; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Cyhoeddi ei chynllun ynghylch staffio swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol;

b) Gwrthod unrhyw gynnig i gau swyddfeydd Llywodraeth Cymru;

c) Sicrhau dosbarthiad teg o swyddi Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4789 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gymunedau ledled y wlad; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Gyhoeddi ei chynllun ynghylch staffio swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y dyfodol;

b) Gwrthod unrhyw gynnig i gau swyddfeydd Llywodraeth Cymru;

c) Sicrhau dosbarthiad teg o swyddi Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 1 | 37 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau â'r Strategaeth Leoli, sy'n ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru ddarparu swyddi a gwasanaethau o fewn adeiladau effeithlon a hygyrch ar draws Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 14 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hystâd yn cael ei defnyddio i'r eithaf i gefnogi cymunedau ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd swyddi Llywodraeth Cymru yn Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin a Chaernarfon i'r economïau lleol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n ddi-oed i egluro sefyllfa ei swyddfeydd rhanbarthol mewn datganiad ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â'r undebau yn ei hadolygiad o anghenion staffio mewn swyddfeydd rhanbarthol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4789 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod pwysigrwydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus i gymunedau ledled y wlad; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau â'r Strategaeth Leoli, sy'n ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru ddarparu swyddi a gwasanaethau o fewn adeiladau effeithlon a hygyrch ar draws Cymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ei hystâd yn cael ei defnyddio i'r eithaf i gefnogi cymunedau ledled Cymru.

4. Yn cydnabod pwysigrwydd swyddi Llywodraeth Cymru yn Llandrindod, y Drenewydd, Caerfyrddin a Chaernarfon i'r economïau lleol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd ati'n ddi-oed i egluro sefyllfa ei swyddfeydd rhanbarthol mewn datganiad ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â'r undebau yn ei hadolygiad o anghenion staffio mewn swyddfeydd rhanbarthol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 15 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**17.43**
**8. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**NDM4788 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod busnesau bach yn hanfodol i adferiad economaidd Cymru ac yn chwarae rôl mewn economïau lleol ledled Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o ardrethi busnes er mwyn:

a) Osgoi sefyllfa lle mae gwneud gwelliannau i eiddo yn cynyddu ei werth ac felly'n golygu bod ardreth y busnes yn uwch;

b) Newid y rôl y dylai awdurdodau lleol ei chwarae o ran casglu a chadw ardrethi busnes, er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol;

c) Rhoi'r gorau i godiadau anferth mewn ardrethi busnes pan fo gwerthoedd yn cynyddu a chostau'n codi rhwng blynyddoedd fel sydd wedi digwydd i lawer o fusnesau gwely a brecwast yn ddiweddar;

d) Ehangu'r rhyddhad ardrethi busnes i helpu mwy o gyfleusterau cymunedol fel swyddfeydd post, tafarndai, mentrau cymdeithasol a siopau annibynnol;

e) Penderfynu a fyddai Cymru'n elwa o fabwysiadu'r un trefniadau cyfrifo ardrethi busnes ag sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda Llywodraeth y DU.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i:

a) Rhewi ardrethi busnes nes caiff argymhellion yr adolygiad hwn eu rhoi ar waith;

b) Amlinellu manylion ei chynlluniau i lunio cynllun cynhwysfawr i leihau'r beichiau rheoleiddio ar fusnesau bach; a

4. Yn galw ar y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i asesu effaith ei pholisïau ar fusnesau bach yn rheolaidd.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4788 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod busnesau bach yn hanfodol i adferiad economaidd Cymru ac yn chwarae rôl mewn economïau lleol ledled Cymru;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o ardrethi busnes er mwyn:

a) Osgoi sefyllfa lle mae gwneud gwelliannau i eiddo yn cynyddu ei werth ac felly'n golygu bod ardreth y busnes yn uwch;

b) Newid y rôl y dylai awdurdodau lleol ei chwarae o ran casglu a chadw ardrethi busnes, er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol;

c) Rhoi'r gorau i godiadau anferth mewn ardrethi busnes pan fo gwerthoedd yn cynyddu a chostau'n codi rhwng blynyddoedd fel sydd wedi digwydd i lawer o fusnesau gwely a brecwast yn ddiweddar;

d) Ehangu'r rhyddhad ardrethi busnes i helpu mwy o gyfleusterau cymunedol fel swyddfeydd post, tafarndai, mentrau cymdeithasol a siopau annibynnol;

e) Penderfynu a fyddai Cymru'n elwa o fabwysiadu'r un trefniadau cyfrifo ardrethi busnes ag sydd gan yr Alban a Gogledd Iwerddon gyda Llywodraeth y DU.

3. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i:

a) Rewi ardrethi busnes nes caiff argymhellion yr adolygiad hwn eu rhoi ar waith;

b) Amlinellu manylion ei chynlluniau i lunio cynllun cynhwysfawr i leihau'r beichiau rheoleiddio ar fusnesau bach; a

4. Yn galw ar y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i asesu effaith ei pholisïau ar fusnesau bach yn rheolaidd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 0 | 48 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 o'r cynnig gwreiddiol a rhoi yn eu lle bwyntiau newydd 2 a 3, a nodir isod.

2. Yn cydnabod bod cynnwys y cyfrifoldeb arweiniol am bolisi ardrethi busnes o fewn portffolio y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn rhoi arwydd clir ynghylch effaith bosibl ardrethi busnes ar fusnesau Cymru.

3. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu polisïau ynghylch ardrethi busnes er mwyn cyflwyno ardrethi teg a chymesur ar gyfer busnesau Cymru er mwyn bodloni amcanion economaidd a chymdeithasol y Llywodraeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 28 | 0 | 26 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

*Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2, 3 a 4 eu dad-ddethol.*

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad llawn o ardrethi busnes a pharhau â'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes cyfredol i fusnesau bach wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

**Gwelliant 3 - Nick Ramsay (Mynwy)**

Dileu is-bwynt 3a) a rhoi yn ei le:

Dileu'r holl ardrethi busnes ar gyfer busnesau sydd â gwerth ardrethol o £12000 neu lai a thapro ardrethi busnes ar gyfer busnesau sydd â gwerth ardrethol rhwng £12000 a £15000.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt 3a) ac ailrifo'r pwyntiau sy'n dilyn.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4788  Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod busnesau bach yn hanfodol i adferiad economaidd Cymru ac yn chwarae rôl mewn economïau lleol ledled Cymru;

2. Yn cydnabod bod cynnwys y cyfrifoldeb arweiniol am bolisi ardrethi busnes o fewn portffolio y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn rhoi arwydd clir ynghylch effaith bosibl ardrethi busnes ar fusnesau Cymru.

3. Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu polisïau ynghylch ardrethi busnes er mwyn cyflwyno ardrethi teg a chymesur ar gyfer busnesau Cymru er mwyn bodloni amcanion economaidd a chymdeithasol y Llywodraeth.

4. Yn galw ar y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i asesu effaith ei pholisïau ar fusnesau bach yn rheolaidd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 12 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**18.30**
**Cyfnod pleidleisio**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.36.

**Bydd y Cynulliad yn cwrdd eto yn y Cyfarfod Llawn am 13:30 on Dydd Mawrth, 20 Medi 2011**